

Ar gyfer mynediad ym mis Medi 2022, gwahoddir pob ymgeisydd i fynychu clyweliad rownd gyntaf i gefnogi eu cais. Cynhelir y clyweliad ar-lein, drwy Zoom. Unwaith y byddwn yn derbyn eich cais byddwn yn anfon e-bost atoch gyda rhagor o fanylion ynglŷn â threfnu clyweliad.

Eich Clyweliad Rownd Gyntaf

Dilynwch y canllawiau isod:

Bydd angen i chi baratoi'r canlynol ar gyfer eich clyweliad:

1. Cân Clyweliad

Bydd angen i chi baratoi **un gân** o'r repertoire theatr gerddorol.

Byddai'n well gennym pe bai cyfeiliant i'r gân; naill ai'n fyw neu gyfeiliant a recordiwyd ymlaen llaw. Fodd bynnag, os nad yw hyn yn bosibl gall y gân fod yn ddigyfeiliant. Ni ddylai ymgeiswyr berfformio eu deunydd eu hunain.

2. Araith Clyweliad

Dylai ymgeiswyr baratoi **naill ai**:

- **Un** araith fodern / gyfoes (**a ysgrifennwyd wedi 1956**) *neu*
- **Un** araith o'r cyfnod Elisabethaidd / Jacobeaidd

Nid oes mantais benodol dewis y naill neu'r llall, penderfyniad yr ymgeisydd unigol fydd hynny. Dylid cymryd yr araith o ddrama sydd wedi'i chyhoeddi ac ni ddylai bara mwy na **dwy** funud.

Gwahoddir ymgeiswyr i berfformio eu darnau dewisedig i banel clyweld sy'n cynnwys aelodau o staff y rhaglen Theatr Gerddorol a / neu ymarferwyr proffesiynol allanol. Gall y panel ddewis ail-gyfarwyddo un o'ch darnau.

Canllawiau Pellach

- Gallai y caneuon a'r areithiau fod wedi'u hysgrifennu'n wreiddiol ar gyfer rhywun o ryw gwahanol i chi.
- Gall y caneuon a'r areithiau fod wedi'u cyfieithu o unrhyw iaith.
- Gellir golygu areithiau, cyn belled eu bod yn parhau i lifo ac yn gwneud synnwyr.
- Ni ddylai ymgeiswyr berfformio eu deunydd eu hunain.
- Rydym yn cynghori ymgeiswyr i osgoi areithiau gorboblogaidd.

Yn dilyn eich clyweliad rownd gyntaf, byddwn yn ysgrifennu atoch i'ch hysbysu am un o ddau ganlyniad:

- Hoffem eich gwahodd i fynychu clyweliad adalw.
- Nid ydych wedi bod yn llwyddiannus ar yr achlysur hwn.

Clyweliadau Adalw

Rydym yn gobeithio y byddwn yn gallu cynnal clyweliadau adalw yn y Coleg yng Nghaerdydd, ond os na allwn gynnal clyweliadau wyneb yn wyneb fe'u cynhelir ar-lein.

Mae clyweliadau adalw wyneb yn wyneb yn debygol o gynnwys sesiynau canu, actio a dawns.

Dylai ymgeiswyr sy'n cael eu gwahodd i fynychu clyweliadau adalw fod yn barod i ailadrodd eu cân ac araith wreiddiol o'u clyweliad rownd gyntaf. *Yn ogystal*, bydd angen i iddynt baratoi **un** gân arall ac **un** araith arall.

Dylai'r rhain fod yn gyferbyniol o ran arddull i'r darnau a ddewiswyd ar gyfer eich clyweliad rownd gyntaf. Dilynwch y canllawiau a restrir uchod, h.y., pan fyddant yn mynychu clyweliad adalw, bydd angen i ymgeiswyr fod wedi paratoi 2 gân a naill ai 2 araith fodern / gyfoes neu 1 fodern ac 1 Elisabethaidd / Jacobeaidd.

Ar gyfer clyweliadau adalw a gynhelir wyneb yn wyneb, rhaid i chi ddod â chopi o'r gerddoriaeth i'ch clyweliad ar gyfer y cyfeilydd. Rhaid i gopïau o'r gerddoriaeth gael eu cyflwyno naill ai mewn ffolder, llyfr, neu ar ddalennau sengl wedi'u tapio gyda'i gilydd, er mwyn sicrhau bod y tudalennau yn y drefn gywir ac yn hawdd eu troi. Rhaid i'r gerddoriaeth fod yn y cywair cywir a rhaid bod unrhyw doriadau wedi'u marcio'n glir.

Bydd rhagor o fanylion ynglŷn â chlyweliadau adalw ar gael o fis Ionawr 2022.

Adborth

Oherwydd nifer fawr yr ymgeiswyr sy'n mynychu ein clyweliadau, yn anffodus ni allwn roi adborth unigol. Bydd penderfyniad y panel yn derfynol.

Cyngor i Ymgeiswyr

Mae'r Coleg yn rhoi gwerth mawr ar y canlynol:

- Y gallu i 'feddiannu' cymeriad – i ddeall a datgelu ei seicoleg gymhleth.

- Y parodwydd i fentro, ond i arfer peth soffistigeiddrwydd wrth wneud hynny.
- Graslunrwydd wrth weithio gydag eraill.
- Gallu technegol a mynegiannol o ran llais, symud a chanu.
- Diddordeb brwd a gwybodaeth am y theatr a'r celfyddydau perfformio perthynol.
- Profiad bywyd – rydym yn annog ymgeiswyr o ystod oedran eang.

Rydym hefyd yn gwneud yr argymhellion penodol canlynol:

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn cofio'r darnau yr ydych wedi'u dewis yn dda.
- Osgowch areithiau gorboblogaidd. Os ydych wedi dewis darn o lyfr clyweliadau, mae'n debygol y bydd y panel wedi gweld y darn yn cael ei berfformio sawl gwaith o'r blaen.
- Osgowch areithiau gan gymeriadau sy'n llawer hŷn na chi, oni bai bod y teimladau ynddynt yn rhai oesol.
- Osgowch ddefnyddio acen heblaw eich acen ei hun, oni bai eich bod yn hollol gadarn ynddi.
- Osgowch areithiau ffôn.
- Gwisgwch ddillad priodol sy'n caniatáu i chi symud yn hawdd a chyfforddus.
- **Peidiwch â defnyddio propiau.**
- Mwynhewch y profiad!

Paratoi ar gyfer eich Clyweliad Zoom – Awgrymiadau a Chyngor

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn barod am eich clyweliad mewn man addas; ceisiwch wneud eich cefndir mor blaen â phosibl ac efallai y byddwch am greu ardal yn eich lleoliad fel y gallwch symud o gwmpas heb adael y 'shot'.
- Gwnewch yn siŵr eich bod wedi'ch goleuo'n dda, bod eich dyfais recordio wedi'i gosod ar dreipod neu arwyneb gwastad, yn llinell eich llygaid. Bydd angen i ni allu gweld eich corff cyfan a hefyd dylech allu dod yn agos i'r camera.

Os ydych chi'n defnyddio ffôn symudol, gosodwch eich dyfais yn llorweddol.

- Byddwch yn yr ystafell aros ychydig funudau cyn amser dechrau eich clyweliad.

- Gwnewch yn siŵr bod eich Wi-Fi mor gadarn â phosibl.
- Rydym yn argymhell eich bod yn ymgyswrtio â Zoom cyn diwrnod eich clyweliad, gan gynnwys profi eich gosodiadau sain a llun. Efallai y byddai'n ddefnyddiol trefnu galwad brawf gyda ffrind neu aelod o'r teulu. Os yn bosibl, lawrlwythwch yr ap Zoom ymlaen llaw.
- Pan fyddwch yn mynd i mewn i'r ystafell aros ar gyfer eich clyweliad, **dylai eich enw Zoom gyfateb i'ch enw ar eich cais UCAS Conservatoire.**
- Os oes gennych anabled a/neu anghenion penodol, cysylltwch â ni yn uniongyrchol er mwyn sicrhau y gallwn wneud unrhyw drefniadau angenrheidiol mewn pryd ar gyfer eich clyweliad: admissions@rwcmd.ac.uk neu ffoniwch 029 2039 1361.